# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 40. RHIF 3/4 AWST/MEDI 2018 50c




*Gwibaith Cymdeithas Cymry Lerpwl i Landudno*
*Ceir eu hanes a mwy o luniau ar dudalen 4 a 5.*



*Dr. Rhys Davies yng Ngŵyl yr NHS*



*Yr Athro Mari Lloyd-Williams*



*Llongyfarchiadau i Aled Evans a Chloe ar eu priodas yn Gothenburg, Sweden ym mis Mehefin. Bydd y ddau athro yn byw yn Gothenburg.*
*Llun Wena Evans*

## YN Y RHIFYN HWN -


Golygyddol (Aneurin Bevcan a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol); Henaduriaeth i'w chofio; Ysgrif Goffa i Gwilym Eifion Roberts; Newyddion Manceinion, Bethel, Bethania a Seion. Crwydro Cymru (Bannau Brycheiniog)


## *Yr Angor*

Ym mis Ionawr eleni, 2018, cyflwynais yr englyn a ganlyn i gyfarch *Y Bedol*, papur bro Rhuthun a'r cylch. Y mae'n englyn sydd yr un mor berthnasol i gyfarch *Yr Angor*, 'Papur Cymry Glannau Mersi a Manceinion'. Dyma bapur ardderchog iawn. Trysor amhrisiadwy ar gyfer darllenwyr heddiw a haneswyr yfory.

Cyflwynaf yr englyn, felly, gyda chanmil diolch i'r Golygydd amryddawn ac ymroddedig, y Parchg Ddr D Ben Rees, ac i bawb sy'n cynorthwyo o fis i fis i gyhoeddi'r *Angor*: yn cyfrannu iddo, yn ei brynu, yn ei ddarllen – ac yn ei werthfawrogi.

Gyda phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol,
A chofion caredig iawn.

**Mae'n gostrel i ddiogelu – ein hiaith;**
**Mae'n rhodd hardd i'w rhannu;**
**Hwn yw teg drysor pob tŷ,**
**A dolen i'r holl deulu.**

**Robin Gwyndaf, Caerdydd**

Golygyddol

# Aneurin Bevan a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol - *gan D. Ben Rees*

Saif Aneurin Bevan ar ei ben ei hun fel gwleidydd o argyhoeddiad ac a adawodd ar ei ôl yn 1960 wasanaeth sydd yn bwysig dros ben i bawb ohonom yn y flwyddyn 2018. Mewn arolwg a wnaed ar ddechrau'r ganrif hon daethpwyd i'r casgliad trwy'r cyhoedd mae Cymro mwya'r canrifoedd oedd y gwleidydd Aneurin Bevan (1897-1960). Y mae hynny yn gryn glod a'r rheswm pennaf am yr orchest yw mae ef yw Pensaer a chrewr y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Edrychwn ymlaen i Sadwrn cyntaf yn mis Gorffennaf a'r Sul hefyd yn Canolfan y Cymry, Lerpwl i ddehongli, dilyn y newidiadau a wnaed ac i ddiolch i Dduw am y fath drefn a chynllun boddhaol. Da yw dathlu felly gan mae eleni yw'r cyfle i gofio'r digwyddiad pwysig a ddaeth i fodolaeth ar 5 Gorffennaf 1948 pan aeth y ddeddf trwy'r Senedd. Ie saith deg mlynedd yn ôl. A daliwn i lawenhau yn y weledigaeth. Y syndod pennaf yn nechrau Awst 1945 oedd fod y Prif Weinidog Clement Attlee wedi gwahodd o bawb yn ei blaid Aneurin Bevan i fod yn Weinidog Tai, Iechyd a Llywodraeth Leol.



Anrhydeddu beirniad pennaf y meinciau cefn, a gwleidydd a fu'n dweud y drefn gyda huodledd anghyffredin wrth arweinwyr pob plaid pan oeddynt yn ei dyb ef yn cyfeiliorni. Ac yn ddistaw bach gobeithiai Atlee weld Bevan yn tyfu yn y swydd er nad oedd ganddo unrhyw brofiad o ddal cyfrifoldeb ar wahan i fod yn asiant answyddogol y glowyr yn Sirhowy, Cynghorydd a Chadeirydd yr Ysbyty leol yn Nhredegar a bod yn Aelod Seneddol Glyn Ebwy oddi ar 1929. Fe'i hanwybyddwyd yn bwrpasol er mai ef oedd y deallusyn pennaf a feddai y Blaid Lafur er iddo adael yr ysgol gynradd yn un ar ddeg oed.

Daeth Aneurin i gredu y dylid gwladoli yr Ysbytai gwirfoddol, ysbyty yr awdurdodau lleol ac ysbytai enfawr ar gyfer y rhai a ddrysodd o ran meddwl. Yr oedd ef a Jim Griffiths, Cymro o Gristion glan gloew, yn frwd dros y syniad hwnnw mewn meysydd heblaw Ysbytai. Deilliai y syniad iddynt o'u profiad blin o ddiweithdra yn y dau ddegau. Mentrodd Aneurin ar lwybr na feddyliodd y gwleidyddion Llafur a chlod iddo am ei ddewrder anghyffredin. Darllenodd Aneurin yn ofalus erthyglau y cylchgronau safonol y chwith a'r dde, y dogfennau o eiddo Llywodraeth y Coalisiwn, a doethineb ei ffrindiau o fewn y gwasanaeth meddygol fel Syr Daniel Davies, mab gweinidog Presbyteraidd Cymraeg Pontycymer. Daeth i'r casgliad ym mlynyddoedd y rhyfel, ar ôl Adroddiad pwysig Syr William Beveridge, fod unrhyw wasanaeth meddygol, i fod yn rhydd o awdurdodau lleol, ac y mae llwybr gwladoli a threfnu yn rhanbarthol oedd y dewis gorau.

Gwyddai Bevan beth oedd ganddo yn ei weledigaeth. Roedd y weledigaeth wedi bod ganddo ar hyd ei oes gan fod ei dad David Bevan, y Cymro diwylliedig, yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar yn 1890. Darparai'r Gymdeithas am ofal iechyd y glowyr a'u teuluoedd ar y dechrau, ac yn ddiweddarach gofal am bawb o'r trigolion yn gyfnewid am danysgrifau a bu Aneurin ei hun yn gadeirydd y Gymdeithas ac ar Bwyllgor Gwaith yr Ysbyty leol. Dyna'r model oedd yn ei feddwl. Trafododd yn fanwl Cynllun Tredegar gyda ychydig o newidiadau yn y Cabinet ar 11 a 18 Hydref 1945 er fod rhai yn mynnu ei wrthwynebu heb drugaredd. Cafodd ei feirniadu gan Adain Dde a Chwith ei blaid ei hun a bu'r Toriaid yn ddi-drugaredd hyd y ddadl olaf. Bu Cymdeithas Meddygol Prydain hefyd yn ffiaidd tuag ato heb laesu dwylo ond cicio yn y tresi. Bu rhagor o drafod trwy 1946 ond erbyn Tachwedd 6 1946 yr oedd hi yn fwy gobeithiol. Blwyddyn ar ôl hynny yr oedd ef wedi llwyddo yn yr Alban hefyd.

Yr oedd y Wasg safonol o'i blaid. Braf oedd ennill y dydd, gweld y wyrcws yn diflannu, a phawb yn cael ei parchu. Bu'n rhaid iddo gymrodeddu i gael gwireddu ei freuddwyd ar 5 Gorffennaf 1948. Bodlon ydoedd y diwrnod hwnnw gan iddo gredu ei fod wedi cwphlau y gwaith a gychwynwyd gan Lloyd George ddeugain mlynedd a mwy yn gynt i Bevan yr oedd y gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol i greu 'serenedd trwy'r wlad' a dyna fu ei gamp.

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor gan y Golygydd yr Athro D. Ben Rees*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2018. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin 2018 ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Hydref 2018 –** erbyn bore Sul, 2 Medi 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Tachwedd 2018** erbyn bore Llun, 1 Hydref, 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk.net

**iii) Rhifyn Rhagfyr 2018/Ionawr 2019 –** erbyn dydd Iau, 1 Tachwedd, 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 2 o'r gloch ar ddydd Llun, 1 Hydref 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk.
- **Cofier y Dathlu yn 2019.** Y Dyddiadau Sadwrn 20 Gorffennaf a Sul 21 Gorffennaf. Deugain mlynedd o newyddiadura i Lerpwl ac yna Cymry Manceinion. Diolchir i Mrs Betty Lockyer, Betws Bledrws am anfon £15 tuag at y Dathlu.

*YSGRIF GOFFA I*

# Gwilym Eifion Roberts, Manceinion

## 2 Medi 1932 - 9 Mehefin 2018



**Gyda thristwch yr ydan ni wedi ymgynnull yma heddiw ar fore Sadwrn 19 Mehefin i ffarwelio ag aelod ymroddgar a roddodd oes o wasanaeth ffyddlon i'r Achos Cymraeg yn ninas Manceinion – Gwilym Eifion Roberts – ef a'i briod Marian a'i chwaer Louie (Lerpwl) yn hanu o bentref Carmel, yng nghefn gwlad Cymru ac wedi'u fagu a'u trwytho yn y 'pethe'. – Capel Methodistaidd Calfinaidd y pentref yn chwarae rhan flaenllaw yn eu magwraeth. Ar ôl cael ei addysg elfennol yn ysgol Carmel, bu Gwilym yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes a blwyddyn o addysg pellach yng ngholeg Harlech cyn ymuno â'r Llynges Frenhinol am saith mlynedd. Priodi â Marian, hithau o Garmel, yn 1960 a dod yma i ddinas Manceinion i ymgartrefu ac i weithio mewn adran o'r Rheilffordd Prydeinig yng ngorsaf Piccadilly. Ef oedd cynrychiolydd Undeb glerigol y gwaith. Ganed iddynt ddwy ferch Susan a Gillian sydd wedi bod yn gymorth amhrisiadwy yn ystod gwaeledd eu tad.**

**Gwilym a Marian yw'r ddau aelod sydd wedi mynychu Capel Oaker Avenue hwyaf – hynny es i'r capel agor yn 1962. Dyma dros hanner canrif o ymroddiad cyson a di-flino. Bu Gwilym yn organydd yr eglwys am flynyddoedd maith ac yn ddiweddar, fe ddibynem yn llwyr ar ei wasanaeth. Byddai bob amser yn barod i roi help llaw pe bai angen unrhyw waith adgyweirio ar yr adeilad. Gwnai hyn yn ddistaw, yn hollol ddi-rwgnach a phob amser gyda gwên. Ar nodyn dipyn ysgafnach, cymerodd ran yn ein dramâu ac yn yr eisteddfod – ym mharti cyd-adrodd y dynion – criw anobeithiol i geisio eu dysgu i GYD-adrodd – ond yr atgofion a'r hwyl yn felys. Dyddiau da a erys yn y côf am byth.**

**Heddiw, mae Gwilym yn mynd yn ôl i'w hen gynefin i noswylio. 'O'r lle hwn bu dechrau'r daith, af yn ôl i fy nylaith' meddai'r Bardd a dyna oedd dymuniad Gwilym - cael gorffwys ym mynwent y pentref, Carmel, lle'i magwyd.**

***Fe welwn ei golli'n fawr***
***'Adwy wâg edy o'i ôl'***

**OND gadewch inni drysori yr atgofion lu amdano gan ddiolch i Dduw am ei fywyd ac am gael ei adnabod. Da was, da a ffyddlon.**

*Today is a sad day for us all – for Marian and Susan, Gillian, Phil and especially Carys - (Ann), Megan, William, Lewis, Owen and James. Was there ever a better Taid who was always there for you? Kind, loyal, helpful and a keen supporter of Manchester United – the Reds! May these cheerful thoughts stay in your mind – I'm sure that is what he would have wanted – for the happy days to be remembered.*

*We extend a warm welcome to many of Gwilym's neighbours who have come here today to join us and pay their respects. Marian and family are very appreciative of the kindness you have shown during Gwilym's illness. These good deeds will not be forgotten and you are warmly thanked for your presence and support.*

**Anne Hunt**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Newyddion Manceinion

***SUL ARBENNIG IAWN*** – Un Sul yn ystod mis Mehefin roedd fel breuddwyd i mi: gweld y côr Ny Ako (Yr Adlais) o Madagascar yn canu yng Nghapel Noddfa Oaker Avenue a'r tŷ yn llawn o bobl o bob oed a phawb wrth eu bodd i weld y dawnsio a'r offerynnau cerdd traddodiadol, y gwaith crefft a chlywed y canu bywiog a soniarus. Roedd ffurf y prynhawn yn wasanaeth hefyd ac felly roedd y neges yno i ni gofio ar Sul y tadau 2018 fod y pethau bychain yn tyfu ac yn ffrwytho gyda bendith Duw, a bod Iesu Grist yn waredwr i bawb.

***DATHLIAD ARBENNIG IAWN*** – Roeddwn wedi mynd i Aberaeron yr wythnos gynt, o Ddydd Gwener yr 8 Mehefin i'r 10fed. Roedd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn pwyllgora yno yn eu cyfarfod blynyddol ac ar ddiwedd eu cyfarfodydd yn ymestyn yr amser i ddathlu dauganmlwyddiant glaniad y cenhadon Cymraeg cyntaf ar Ynys Madagascar. Roedd rhaglen llawn ganddynt yno: arddangosfa, drama, cyngerdd, lansio llyfr newydd, gwasanaethau arbennig. Yna hefyd roedd y tywydd yn berffaith yn nhref hardd Aberaeron ac ym mhentref bach Neuadd Lwyd lle cafodd y ddau ddyn ifainc a ymgyflwynodd i fynd i'r genhadaeth, eu hordeinio yng nghapel hardd yr Annibynwyr ym 1818.

David Jones a Thomas Bevan oedd enwau'r ddau, erbyn hyn mae yna ysgol yn perthyn i'r Eglwys FJKM yn cario eu henwau am fod pwrpas mawr y cenhadon cyntaf i sefydlu addysg ym Madagascar wedi llwyddo yn rhyfeddol er bod Thomas Griffiths wedi marw cyn dechrau ar ei waith.. oherwydd y dwymyn 'malaria' a oedd mor beryglus i bobl o Ewrob ar y pryd. Roedd yr hanes yn un drist ac un fendigedig. Gobeithio ichi glywed rhywbeth ar y cyfryngau am Madagascar ym mis Awst wrth i'r dyddiad 18 Awst agosau.

***CYFARFOD Y CHWIORYDD ARBENNIG IAWN*** – Y peth mwyaf i mi oedd cyfarfod llawer o bobl o Madagascar a chlywed ychydig o'r hanes o'r wlad sydd mor dlawd ond yn annwyl iawn i mi! Daeth rhai i aros yn fy nghartref cyn iddynt fynd ymlaen ar eu taith. Roedd rhai yn perthyn i'r côr – a diolch o galon i flaenoriaid y capeli yn Manceinion am roi croeso mor arbennig i'r gwesteion a rhoi llety addas iddynt. Daeth un wraig Zoë i aros yma hefyd, ac roedd hi yn awyddus i fynychu cynulliad y chwiorydd yn ein Henaduriaeth ar yr 11eg Mehefin. Roeddwn yn falch iawn o weld y côr eto amser te yn ein cynulliad. Dydd i'w gofio yn wir.

***DYN ANNWYL ARBENNIG IAWN*** – Yn olaf ac ar gywair gwahanol hollol, roedd capel Noddfa Oaker Avenue dan ei sang ar Ddydd Sadwrn 16 Mehefin i ddiolch i Dduw am fywyd un oedd wedi bod yn hoffus, yn dawel, yn llawn hiwmor ac yn hynod o weithgar trwy gydol ei fywyd : sef Mr Gwilym Eifion Roberts, organydd y capel am 40 mlynedd. Roedd yr oedfa fer yn dod i'w brig gyda'r teyrngedau gan Mrs Anne Hunt ysgrifennydd y capel, a gan yr wyrion a oedd mor hoff o'u Taid ac yn datgan beth roedd pawb yn teimlo yn eu hatgofion melys. Diolch iddynt am fod yn barod i sefyll i fyny a siarad allan ar achlysur teimladwy o'r math. A Diolch i Dduw am Gwilym a hefyd am Marian ei wraig a Susan a Gillian a'r teulu cyfan sydd wedi bod mor ofalus o'i gilydd dros gyfnod gwaeledd Gwilym. Aeth y teulu i'r fynwent yng Ngharmel yr un diwrnod i gladdu Gwilym yng nghynefin ei febyd.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Ar 24 Mehefin cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol o dan arweiniad Mr. John P. Lyons gan gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau. Gwelir cyfrifon yr Eglwys a gedwir mor ofalus gan Elin a Jim Boyd yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gynharach y flwyddyn. Roedd pawb yn awyddus i gadw'r dystiolaeth yn fyw yng Ngogledd Lerpwl ac yn gobeithio yn 2019 y gellir trefnu o leiaf un neu ddau Sul lle y medrwn gael Gweinidog o Gymru i'n gwasanaethu. Bydd yn rhaid ad-drefnu ychydig gan fod y plan blynyddol wedi ei lenwi trwy lafur ein Gweinidog Dr. Rees.

Da clywed fod Miss Susan Evans wedi cael triniaeth yn Ysbyty Fazarkley a bellach adref yn Gorse Glen. Bwriada hi a'i brawd symud o'r hen gartref rywdro yn y misoedd nesaf. Balch ydym o glywed fod Mrs Menna Edwards, Blundellsands yn cryfhau ar ôl treulio amser yn Ysbyty Fazarkley. Gwelwn golli cwmniaeth y ddwy chwaer yn fawr iawn, bendith fo arnynt.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Collodd Eglwys Seion aelod cefnogol iawn ym marwolaeth Mr. John Willams, Rainhill. Meddyliai yn fawr o'r capel a'r gymdeithas a bu yn anabl i ddilyn y moddion ers cryn amser oherwydd pellter ffordd ac yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd afiechyd. Ni fu yn brin o'i gefnogaeth i'r achos a chadwai gysylltiad gyda'r arweinwyr. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu yn y brofedigaeth.

Cawsom gwmni y Parchedig Ddr. D. Ben Rees ynghanol mis Mehefin gan ein harwain i'r sacrament o Swper yr Arglwydd. Mynegodd ei ddiolch i Mrs Phyllip O'Neill am dderbyn y cyfrifoldeb o Drysorydd yr Eglwys a hefyd i Mr. Gwyn Jones am hwyluso y trefniadau o Sul i Sul trwy agor y capel i'r addolwyr. Da oedd ganddo weld un o'i braidd, Mrs Blodwen Prowting, Parc Sefton sydd wedi symud i Tranmere ac yn ôl ei harfer, yn ffyddlon i Seion ar y Suliau. Talodd deyrnged haeddiannol i Mrs Mair Rees Jones, Claughton am ei arweiniad y diwrnod hwnnw a phob Sul arall, yn ôl ei harfer. Boed iddi gael nerth i arwain yng ngwaith y Deyrnas.

## Gwibdaith y Gymdeithas Gymraeg i Llandudno

Mae aelodau Cymdeithas Cymry Lerpwl bellach yn edrych ymlaen am gael



***Rhai o'r criw yn y caban achub ar ôl cael eu hachub.***



***Alun yn egluro***

gwibdaith flynyddol wedi cael ei threfnu gan eu hysgrifennydd Norma Owen. Llynedd yr oedd y wibdaith i'r Ysgwrn Trawsfynydd yn llwyddiant mawr er nad oedd y tywydd yn ffafriol. Eleni penderfynwyd mai Llandudno fyddai'r man delfrydol i fynd a hynny am reswm arbennig.

Dwy flynedd yn ôl daeth Alun Pari Huws atom fel gŵr gwadd i'r Gymdeithas i roddi sgwrs ar yr RNLI ac am y Bad Achub newydd disgwyliedig a oedd i ddyfod i Landudno ynghyd a chanolfan newydd. Fel canlyniad cawsom wahoddiad gan Alun fel Cymdeithas i fyned i Landudno, ac felly y bu.

Trefnodd Norma wibdaith ar yr 14 o Fehefin a chafwyd 30 o'r aelodau i ymuno ar y bws i ymweld â'r ganolfan newydd gydag Alun mor garedig yn ein cyfarfod ac wedi trefnu ein bod yn cael ein tywys oddi amgylch.

Ar ôl cael sbel o dywydd braf yr oedd pawb yn cadw llygad barcud ar y tywydd ac yn ofni bod newid ar y gorwel.

Cychwyn am 9.30am yn brydlon o'r capel ac aros ar y daith ym Mhorth Eirias Bae Colwyn am baned a ròl bacwn, Norma wedi trefnu y cyfan fel bod y bwyd yn disgwyl amdanom pan gyrhaeddom. Dyma le delfrydol i aros ar siwrne ac wrth gwrs gwesty y cogydd enwog Bryn Williams ydyw Porth Eirias. Cawsom groeso, a'r tywydd yn sych ond yn wyntog.

Ymlaen oddi yno a chyfarfod Alun Pari Huws yn Llandudno am 12.30pm. Alun yno yn ein disgwyl a ninnau bron methu sefyll yn y gwynt wrth ddod oddiar y bws. Cawson ein tywys oddi amgylch y ganolfan yn cael eglurhad manwl o'r Bad Achub newydd a pob agwedd o waith y ganolfan gan Alun a dwy wraig, un ohonynt yn ferch i gyn weinidog Stanley Road. Buom yn y ganolfan am awr a hanner cyn ffarwelio, pawb wedi cael mwynhad o'r mwyaf ac wedi dysgu llawer am yr RNLI ar gwaith bendigedig y maent yn ei gyflawni yn y broses o achub bywydau ar y môr. Hynny heb dderbyn un geiniog o'r Cyllid Cenedlaethol, y cyfan yn cael ei gyfrannu fel elusen gan y cyhoedd.

Cafwyd amser hamdden yn nhref Llandudno cyn gadael am 5.00pm o'r gloch gyda phawb yn edrych ymlaen am bryd o fwyd blasus ar y ffordd adref yng Ngwesty Bod Erw yn Llanelwy. Norma eto wedi trefnu'r cyfan fel bod pawb wedi dewis ymlaen llaw oddiar y fwydlen a'r gwesty wedi paratoi amdanom heb ddim ymaros. Bwyd ardderchog, pawb wedi mwynhau'r arhosiad mewn lle delfrydol eto gyda'r criw yn mwynhau cymdeithasu dros bryd o fwyd.

Yr oedd pawb yn llawn canmoliaeth am ddiwrnod arbennig wedi cael ei drefnu mor fanwl gan Norma ac yn gofyn i ble gawn ni fynd flwyddyn nesaf.

*Gohebydd arbennig*

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Rhyfedd fel y rhydd Amser*
*Ei bysedd yn dyner*
*Hyd edafedd y dyddiau,*
*A thoddi'r lliwiau i'w gilydd i gyd*
*Ar dapestri bywyd.*

Dyna eiriau y bardd Nesta Wyn Jones, ac mae Duw yn gallu cyfathrebu â ni drwy ei greadugaeth a rhoi y gallu i ni ryfeddu at harddwch y blodau eto yn ein gerddi ac yn tyfu'n wyllt wrth ochr y ffordd. Hyn oll yn rhan dawel o batrwm y creu.

Nos Lun, y pedwerydd o Fehefin cynhaliwyd seiat ar Syr O. Morgan Edwards fel pregethwr ifanc o dan arweiniad ein gweinidog Dr. D. Ben Rees. Ganwyd ef yng Nghoed y Pry, Llanuwchllyn yn 1858. Cadwodd ddyddiaduron drwy ei ddyddiau coleg yn y Bala, Aberystwyth a Rhydychen. Ar ôl gadael y coleg aeth i grwydro Ewrop, i Lydaw, Swistir, Yr Almaen, yr Eidal ac ysgrifennodd lyfrau am ei ymweliadau â'r gwledydd hyn. Aeth ymlaen wedyn yn diwtor Hanes Modern yn Rhydychen, ac yna nôl i Gymru yn 1908 yn brif arolygydd ysgolion y Bwrdd Addysg yng Nghymru. Roedd y gyfundrefn addysg bryd hynny yn gwbl Saesneg a gwelodd yr angen am lyfrau Cymraeg, aeth ati i ysgrifennu a chyhoeddi llawer iawn o lyfrau a chylchgronnau Cymraeg. Daeth cyfres allan am gartrefi enwogion fel Pantycelyn, Trefeca, Dolwar Fach. Bu'n Olygydd *Cymru Fydd* (1889-91), *Cymru Coch* (1891-1920), *Cymru'r Plant* (1891-1920). Sylweddololodd nad oedd plant Cymru wedi cael y mantais addysgol fel ef.

Yn 1878 dechreuodd bregethu, ymgeisiodd am y Weinidogaeth ac ar ôl hyfforddiant diwinyddol cafodd alwad yn Weinidog i Landderfel. Ond gwrthododd er mwyn mynd ymlaen a'i astudiaeth. Bu ei gyfraniad i genedl y Cymru yn aruthrol. Gosododd y sylfeini. Cafwyd cyfle i drin a thrafod ei brofiadau a'i bregethau. Diolchwn fel cynulleidfa i Dr. D. Ben Rees am baratoi ar ein cyfer a rhoi cyfle i ninnau wyntyllu ein barn ar ŵr oedd am 'godi'r hen wlad yn ei hôl'.

Ar yr *11eg o Fehefin* cafwyd seiat ar y testun 'Gras a'i Ystyr'. Hwn yn destun pwysig i bawb sy'n ymboeni am y ffydd Gristnogol, cyfle i holi, dysgu a dehongli un o'r athrawiaethau "Gras o'r fath beraidd sain" oedd agoriad i'r seiat o dan arweiniad ein gweinidog Dr. D. Ben Rees. Daw'r diffiniad cyntaf o ras yn hanes dewis y patriarchiaid yn yr Hen Destament, ac o hanes cenedl Israel mewn caethiwed yn yr anialwch. Moses arweiniodd y genedl allan ar ôl derbyn neges gan Dduw ar fynydd Sinai – neges o ras i bawb. Yna yn y bedwaredd bennod o lyfr Micha, ceir yr Arglwydd yn teyrnasu ac yn dysgu cenhedloedd y ddaear am ras Duw.

Yna daeth gras Duw mewn cnawd yn yr Ymgnawdoliad i wireddu ei addewidion. Gras a chariad ar waith ym mywyd yr Iesu yw hyn. Gras Duw a gymhellodd Mair i eneinio traed yr Iesu ym Methania ac i'r disgyblion ei ddilyn. Ceir mwy o sôn am ras yn yr epistolau gan Paul, a'r pwyslais cyson ar ras Duw yn rhodd ac ar gyfer pawb o blant dynion. Gras achubol Duw a ddaw a bywyd tragwyddol trwy Iesu Grist ond i ni ymateb i'w alwad. Diolch o Dr. D. Ben Rees am neges obeithiol ac arweiniad cadarn i selogion y Seiat.

Ar y *nos Lun y 25ain o Fehefin* cafwyd seiat arall o dan ofal ein gweinidog, a'r testun y tro hwn sydd yn peri dilema fawr yn Eglwys Gristnogol 'Perthynas rhwng ysbrydolrwydd a chyfiawnder". Dewisodd Dr. Rees ddyfyniadau o'r llyfr

‘A Dictionary of Christian Spirituality’ a olygwyd gan Dr. Gordon S. Wakefield. Mae pennod ynddo gan Dr. Geraint Tudur yn sôn am Howell Harris a Threfeca, man cychwyn ein henwad. Yma roedd gweddi yn rhan anatod o fywyd y ganolfan.

Taflwyd llawer cwestiwn atom i’w drin a’i drafod. Beth fyddai eich hymateb chwi? Dyma rai ohonynt:

1. Oes awch heddiw ymhlith yr ifanc am rywbeth gwahanol i’r hyn a gynigiwn?

2. Ydy’r eglwys heddiw yn rhoi yr aweiniad cywir?

3. Yda ni fel eglwys yn fodlon newid?

4. Sut mae dod i undod ymhlith y ddynoliaeth?

5. Beth am gyfiawnder cymdeithasol ar lefel leol, a sut y gwireddir hynny?

6. Bu gweithredu anghyfiawn yn y gorffennol, a ydym ni wedi symud ymlaen gyda hawliau dynol a chyfraniad addysgol?

Cnewyllyn yr Efengyl yn ôl y Testament Newydd yw “Teyrnas Dduw o’ch mewn chwi y mae”. Gwerthoedd sy’n clymu ysbrydolrwydd a chyfiawnder â’i gilydd. Er mai nifer fechan oedd yn bresennol, cyfrannodd pob un i’r seiat, a diddorol oedd gweld mwy o frodyr yn bresennol na chwiorydd. Pwysleisliwyd ar hyd yr amser fod Teyrnas Dduw yn derbyn llywodraeth Duw yn ei chyfanrwydd – nid rhan ohono sydd yn ein plesio ni ond y cwbl, y cyfan, ac yn arbennig ysbrydolrwydd a chyfiawnder. Diolchir i Dr. Rees am y paratoad, yr arweiniad a’r cyfle inni fynegi ein gobeithion a’n diolchgarwch.

Anfonwn ein dymuniadau gorau fel eglwys i Aled Gruffudd Anwyl Evans ar ei briodas â Chloe, Bu hyn ar Fehefin 2il yn Gothernburg, Sweden. Yma mae’r ddau yn byw ac yn dysgu. Gofidiwn i Mrs Enid P. Hughes, Calderstones gael damwain tra ar ei gwyliau. Mae hi’n dechrau gwella erbyn hyn. Dymunwn y gorau i chi Enid ac y byddwch yn cryfhau yn ddyddiol.


Braf oedd cael croesawu Beryl Williams yn ôl i’r oedfaon a’i gweld yn cerdded yn dda erbyn hyn.

Cydymdeimlwn â Mrs Louie Jones, Mossley Hill ar ôl colli ei brawd Gwilym ym Manceinion. Da clywed iddi allu mynd i’r angladd yng Ngharmel, ei phentre genedigol yng nghwmni ei merch ieuangaf, Dr. Bethan Rees.

Mae Mrs Enid Hughes-Jones wedi ei chymryd i Ysbyty Whiston, dymunwn esmwythdra a chryfhad iddi, gyda diolch i Richard, y mab am ei anwyldeb tuag ati a ninnau. Bu Dr. Huw Rees yntau yn yr ysbyty i gael triniaeth ar ei glun. Mae gartref erbyn hyn ac yn altro o ddydd i ddydd. Anfown ein cofion atoch chwi aelodau Bethel sydd yn methu dod atom ar y Sul ar hyn o bryd.

# CYFRES AM GYNNWYS CANEUON FFYDD

***John Bryn Williams o Gricieth. Bu’n gyfreithiwr yn Harlech a Phorthmadog cyn ymddeol. Cofier ef yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Lerpwl.***




**HAPUS DYRFA**

Mae’r gyfrol ‘Caneuon Ffydd’ gennym bellach ers dwy mlynedd ar bymtheg ac mae organyddion y gwahanol eglwysi a chapeli wedi hen drefnu dyfeisiadau i ddal yr anghenfil glas hen nodiant a’r anghenfil coch sol-ffa ar yr offeryn.

Mae yna gyfrol ddifyr arall wedi hen ymddangos hefyd sef y ‘Cydymaith Caneuon Ffydd’ sydd yn cynnwys pob math o wybodaeth ddifyr am yr emynau, y tonau a’u hawduron. Yn y gyfrol hon mae’ r awdur Delyth G Morgans yn crybwyll fod yna feirniadu wedi bod gan sawl un fod hoff emynau wedi eu hepgor. Ond mae’ n siwr na fu erioed na chasgliad na blodeugerdd a blesiodd bawb.

Un emyn nas cadwyd i’w roi yn y ‘Caneuon Ffydd’ yw emyn Islwyn, ‘Gwêl uwchlaw cymylau amser’, yr unig emyn o eiddo’ r bardd sydd wedi dod yn adnabyddus. William Thomas oedd enw bedydd y bardd Islwyn ond dewisodd ei enw barddonol oherwydd ei fod wedi byw yn ardal Islwyn gydol ei oes [1832-1878]. Fe’i ganed ger Ynys Ddu yn Sir Fynwy i deulu ychydig yn fwy cefnog na’r rhelyw. Tirfesurwyr ac asiantiaid tir oedd ei deulu a dyna a fwriadai Islwyn ei wneud hefyd ar y dechrau. Fodd bynnag clywodd yr alwad i fynd i’ r weinidogaeth ac fe ordeiniwyd ef yn 1859. Erbyn hynny roedd wedi dechrau barddoni a chystadlodd lawer yn ystod y blynyddoedd.

Dyn bychan a thywyll ei bryd oedd Islwyn, o natur swil a thawel ac yn tueddu i fod yn isel ei ysbryd yn aml. Trasiedi fawr ei fywyd oedd fod ei gariad Anne Bowen wedi marw yn sydyn ychydig cyn dydd eu priodas yn 1853. Barn ei gyfeillion oedd na fu byth yr un fath wedyn. Ymhen blynyddoedd fe briododd a Martha Davies ond bu cysgod Anne dros eu bywyd priodasol. Yn ôl y sôn pan oedd Islwyn ar ei wely angau trodd at ei wraig a dweud, “Diolch i ti, Martha, am y cyfan a wnest i mi. Buost yn garedig iawn. ‘Rwyf yn mynd at Anne nawr.” Does dim sôn beth oedd ateb Martha. A dweud y gwir rhyw fywyd digon od a gafodd Islwyn. Ni theimlodd erioed ddigon o hyder i dderbyn gofal eglwys ac er iddo gyfansoddi nifer helaeth o gerddi a chystadlu mewn eisteddfod ar ôl eisteddfod ychydig iawn a enillodd a digon prin ydi diddordeb pobl heddiw yn ei waith. Mae’r cyfan wedi mynd yn anghof.

Ond, efallai am un emyn. Rwyf wedi gweld chwe phennill mewn hen gasgliadau ond tri yn unig sydd mewn llyfrau emynau diweddar. Does dim sens mewn cadw’ r saint ar eu traed yn canu yn rhy hir!

*Gwêl uwchlaw cymylau amser,*
*O! fy enaid, gwêl y tir,*
*Lle mae’r awel fyth yn dyner,*
*Lle mae’ r wybren fyth yn glir:*
*Hapus dyrfa*
*Sydd yn nofio yn ei hedd.*

Emyn ydyw sydd yn edrych ymlaen at y bywyd tragwyddol sydd y tu hwnt i’ r bedd a dichon fod Islwyn yn ei holl drafferthion a’ i iselder yn cael cysur wrth edrych ymlaen at y baradwys a ddaw. Sylwch ar y gair “yno" yn yr ail bennill-

*Nid oes yno neb yn wylo,*
*Nid oes yno neb yn brudd,*
*Troir yn fel y wermod yno,*
*Y no rhoir y caeth yn rhydd;*
*Hapus dyrfa*
*Sydd a’u trigfa yno mwy.*

Ond yn y pennill olaf mae Islwyn yn sôn am y daith at y wlad ac yn galw y rhai sydd yn teithio ati yn “hapus dyrfa” hefyd. Hynny yw, mae’ r gobaith a’ r ymdrech yn llonni’r pererin hyd yn oed cyn pen ei daith.

Roedd yr emyn yng nghasgliadau’ r pedwar enwad ond mae wedi cael y sac o’r ‘Caneuon Ffydd’. Pam tybed? Wel, ychydig iawn o ganu a glywais i arno ers talwm ac mae’r hen syniad o Nefoedd wedi mynd yn beth diarth iawn i ni bellach. Oes yna rywun yn cofio y ‘Rhodd Mam’? Yn ôl y ‘Rhodd Mam’ mae’r Nefoedd yn ‘lle gogoneddus a hyfryd’ ond mae’ r syniad wedi mynd yn hen ffasiwn drybeilig gennym ni. Dichon bod ‘Caneuon Ffydd’ yn adlewyrchu’ n syniadau ni wrth wrthod Islwyn a’i syniadau o’r oes o’r blaen.

***JBW***

# Beirdd Bro Fy Mebyd

## gan D. Ben Rees

I'r ugeinfed ganrif y perthyn beirdd gorau bro fy mebyd. Un a anwyd ac a fagwyd yng Nghefngarth ger y pentref oedd David Lloyd Jenkins (1896-1966) fy hen brifathro yn yr Ysgol Uwchradd yn Nhregaron. Ganwyd ef ar 25 Tachwedd 1896 ac addysgwyd ef yn yr ysgol leol, Ysgol Sir Tregaron, Coleg y Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Rhydychen. Roedd ei dad William Jenkins yn hoff o fyd yr Eisteddfod, a daeth y mab i byncio cân yn gynnar. Un o'r cerddi cyntaf o'i eiddo a welodd olau dydd oedd y gân *'Gwalia! Gwalia'*, a hynny ar dudalennau *Welsh Gazzette* ar Dachwedd 12, 1914. Deunaw oed ydoedd, ac mae'r gân yn llawn o'r ysbryd jingoistaidd y cyfnod. Cerdd sy'n nodweddiadol o gerddi beirdd y cyfnod – moli'r gyflafan oedd ar fin gorchuddio gwledydd Ewrop. Cerdd tra gwahanol i waith gweinidog Bethlehem, T. E. Nicholas yn yr un papur ar y testun *Cerddi Heddiw* ychydig wythnosau yn gynharach (17 Medi 1914).

Erbyn cyfnod yr Ail Ryfel Byd yr oedd D. Lloyd Jenkins wedi datblygu yn ysgolhaig cydnabyddedig yn astudiaethau Cymraeg ac yn fardd da yn y mesurau caeth. Meistrolodd y gynghanedd. Bu bron ag ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1943, ac yn Eisteddfod Llandybie, 1944, enillodd y gadair am ei awdl OFN, (ffugenw, Pryderu). Cynhaliwyd cyfarfod yn y pentref i'w longyfarch am y gamp o dan arweiniad y Parchg. W. D. Davies a D. James Jones, Treforus, ac un o gydysgolheigion D. Lloyd Jenkins. Roedd gan D. J. Jones ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth Gymraeg, ac yn wir, derbyniodd ei M.A. (Prifysgol Cymru) yn 1930 ar y testun *Bugeilgerddi a Rhieinigerddi Cymraeg y 18fed a'r 19fed Ganrif*.

Siaradwyd gan y Cynhorwyr Gruffydd Davies (Alaw Ceri) a W. Morgan Davies, Bryn Teifi. Cymerwyd rhan gan ddoniau lleol: Mrs Annie Jones, Brynawelon (cystadleuydd ar ganu emyn yn yr eisteddfodau lleol); Miss D. Jones, Tegfryn, a anwyd yn Alltddu ac a fu'n byw yn Lundain cyn dychwelyd i fyw yn y pentref; Miss Kitty Lloyd Williams, Glanteifi a'i thad, J. Lewis Williams, adroddwr gafaelgar; Tom Lewis, canwr hyfryd; Bertie Jones, adroddwr a Ben Davies, telynegwr o fri a Mrs Richards, Cwmtwrch. Y prif eitem oedd cadeirio'r bardd o dan ofal y Parchedig D. James Jones.

Rhoddodd Ben James, prifathro yr Ysgol leol amlinelliad ar gyfer y Saeson (yr ifaciwis) oedd yn bresennol o Lundain (yn arbennig East Grinstead a Lerpwl). Gwnaeth hyn yn benigamp. Yn wir, dyna oedd nodwedd Ben James – cyflawni gwaith graenus yng ngweithgareddau diwylliedig yr ardal. Canwyd cân y cadeirio gydag arddeliad gan Dan Ifor Evans o gapel y Annibynwyr Cymraeg, Bethlehem a chafwyd cyfarfod bythgofiadwy. Lluniodd D. Lloyd Jenkins aml i englyn gwych fel yr un i'r Ywen:

*Wytned, ireiddied ei rhuddin – a bywiog*
*Ei bwa mewn heldrin;*
*Dulas dŵr a heriwr hin,*
*Llwyn hiraeth, llan y werin.*

Dyma em o linell clo!

Bardd o'r un ansawdd ydoedd Eluned Ellis Jones (Caernarfon yn niwedd ei hoes) merch y Parchg. J. E. Willams, a gweddw y diweddar Barchg. R. Charles Jones, gweinidog eglwys Annibynnol Bethel, Arfon. Bu ei farw cynnar yn 1963 yn siomedigaeth i gylch eang. Fel ei thad yr oedd Mrs Eluned Ellis yn wraig ddawnus. Sawl person arall a fu'n feirniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol mewn llenyddiaeth, adrodd a cherdd dant? Bu wrth ei bodd yn dysgu plant ac oedolion i ganu penillion ac i gyhoeddi'r Efengyl fel pregethwr cynorthwyol gyda'r Annibynwyr. Daeth i amlygrwydd fel bardd yn gynnar yn ystod ei chyfnod yng ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth (1936-40) lle'r enillodd anrhydedd yn y Gymraeg am ei gradd B.A. Yn y tri degau yn Aberystwyth canai myfyrwyr o feridd fel y rhain – Gwyndaf Evans, D. F. Marcs (Llanbedr Pont Steffan), Gwilym R. Tilsley, Dyfnallt Morgan, Gerallt Jones a'r Athro Thomas Jones a olygodd y gyfrol *Awen Aberystwyth 1929-1939*. Yn y gyfrol hon ceir gemau o eiddo Eluned fel yr englynion hyn:

*GOSTEG*

*Mawnog yng nghol y mynydd - mud afon*
*A'm defaid mor llonydd;*
*Oediad yng nghân ehedydd,*
*Anadliad ar doriad dydd.*


*Y MACHLUD*

*A rhuddau'r haul yn rhoddi – Fes gweld*
*Yasgarlad ar Enlli,*
*Gwyrth Iôr a dry'r môr i mi*
*Yn harddach na'i nef erddi.*

Dotiais hefyd at y darn celfydd i

*MACHLUD HAUL*

*Try dudew gant gorllewin*
*Yr erwau gwaed, aur a gwin,*
*Lliw cwrel a lliw ceirios,*
*Lliw mafon, rhyfon a rhos;*
*Lelog, panadl a lili,*
*Gwawn y llwch ac ewyn lli.*
*Gwisg oror y borffor bau*
*Â chymysg orwych emau.*
*Englyn Duw i derfyn dydd*
*Yw harddwch lliwiau'r hwyrddydd.*


***Llanddewi Brefi***

Daeth Eluned Ellis yn ail o leiaf ddwywaith yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru: anrhydedd oedd o fewn ei chyrraedd, Ymddeolodd yn 1982 ar ôl ugain mlynedd o wasanaeth fel Uwch Gynghorydd Iaith yn Sir Gaernarfon a Gwynedd. Fel y dywedodd Mr. Hywel D. Roberts amdani pan gyflwynwyd iddi M.A. (er anrhydedd) Prifysgol Cymru yng Ngholeg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan ar 24 Gorffennaf, 1982.

"Nid gofalu am ddysgu'r iaith fel pwnc wnai, ond dangos i athrawon, drwy ei diwylliant eang ei hun, a'i chariad at lenyddiaeth orau Cymru, mai perl i'w drysori yw ein diwylliant, ac mai braint

yw gwarchod ein treftadaeth – ‘ fel y cedwir i’r oesoedd a ddel y glendid a fu’.”

Haedda ei chyfoeswr, Dyfnallt Morgan ei chyplysu gyda hi, gan fod ei waith yntau y tu fewn i gloriau y gyfrol *Awen Aberystwyth*. Er na anwyd Dyfnallt Morgan na’i fagu yn Llanddewi Brefi, eto cyfrifai y pentref fel ei ail gartref. Fel beirdd eraill Morgannwg cafodd faeth a chryfder o’i gysylltiad agos â’r fro wledig lle treuliodd ei fam a’r teulu hwyrddydd eu hoes. Yn Rhydcymerau y cafodd Gwenallt, o’r Alltwen, Pontardawe anadlu awyr cymdeithas wledig, felly hefyd Dyfnallt Morgan. Er mai Dowlais a Merthyr yw man ei eni a’i fagwraeth, yn Llanddewi Brefi y cafodd loywi a defnyddio ei Gymraeg ar y stryd ac ar aelwydydd y bobl. Ef oedd enillydd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni yn 1957 a chafwyd cyfarfod i’w longyfarch yntau a ei gamp yn Neuadd y Pentref.

Dylid gosod fy ngweinidog y Parchg. J. E. Williams ymhlith y rhai a enwyd gan ei fod yntau yn feistr at y gynghanedd. Prif ddiddordeb J. E. Williams fel bardd oedd llunio cerdi ar gyfer amgylchiadau trist a llawen yr oedd ef yn arweinydd mor arbennig iddynt. Enghraifft dda o hyn yw ei gerddi i John Evans (1855-1927) y gof, Llanio. J. E. Williams a wasanaethodd ar ddiwrnod ei arwyl, Ebrill 13, 1927 ond y gerdd disgrifia mewn deg pennill y gof wrth ei waith a’r efail yn gyrchfan i amaerhwyr bro a bryn.

*Edrychai’r hen ôf dros ei wydrau*
*A thorchai ei freichiau noeth*
*Pan sychai yr eingion a’i ffedog ddu*
*Diffoddai y gwreichion poeth.*

Darlunia John Evans ar ddiwedd ei gyfnod fel gof,

*Cesglwch y creithiog forthwylion*
*A rhoddwch hwy i gadw o’r ffordd,*
*Mae’r hen Sion Ifan yn cwyno ers tro*
*A’i fraich yn rhy wan i’r ordd.*

*Mae yntau â’i fegin yn methu*
*A chryna ei law erbyn hyn,*
*Ond gwn fod ei galon ers llawer dydd*
*Yn awr fel ei wallt yn wyn.*

Y mae’r traddodiad hwn yn draddodiad pwysig yng nghefn gwlad, traddodiad cofnodi amgylchiadau mewn ffordd gofiadwy trwy gân neu gerdd. Gwelwyd beirdd felly ym mhob plwyf yng Nghymru, pobl yn aml yn cario enw barddol yn ogystal. Yn hynny o beth yr oeddynt yr un fath â’r beirdd lliwgar yn yr eisteddfod. Enghraifft dda o hyn oedd David Jones (1853-1942) a adnabyddid wrth yr enw barddol Prysgoed. Ganwyd David Jones ym Mhant-y-ffynnon, Llanddewi Brefi a threuliodd ei oes yn ffarmio, yn arbennig yn y Prysg. Darllenai lawer a gwyddai cryn ddipyn am lenyddiaeth Gymraeg. Ei gân fwyaf poblogaidd oedd y gân i hen gymeriad a elwid Jim y Rhacs, cân a fedrid ei chanu ar yr alaw Tarw’r Esger. Tynn ddarlun byw ohono yn y chweched pennill o’i gerddi:

*Roedd Jim o nodwedd lawen,*
*A chyfrwys wrth wneud bargen,*
*Un tenau, gwydn gwrol, ffel*
*Ac ystwyth fel llysywen.*

A diwedda’r gerdd gydag dogn go dda o ddoethineb:

*Anghofiwn ei ffaeleddau*
*Ni anwyd heb ei feiau;*
*Mae’n gorffwys mwy yn nhir y fro*
*Ers llawer o flynyddau.*

Etifeddodd ei fab, John Davies Jones (1893-1978) yr un ddawn a’i dad, a da y galwodd golygydd yr *Ancr*, Raymond Daniel ef yn rhifyn Pasg 1976 o’r papur hwnnw, Baledwr Brynawel. Dechreuodd J. D. Jones farddoni yng nghystadlaethau y *Penny Reading* a gynhelid yn yr ysgol. Enillodd ar ei gais gyntaf am delyneg i ffynnon Dolgam yn 1912, telyneg hyfryd iawn ac yn ddarlun o gyfnod a ddiflannodd.

*Mae ffynnon loyw yn Dolgam,*
*Yn ddisglair fel y grisial,*
*Mae hon mewn adnabyddus fan*
*I bawb sydd yn yr ardal.*
*Ymdreiglo mae trwy ddyrys daith*
*I bentref bach Llanddewi*
*Ac yno bydd ei llygaid llaith*
*Yn llanw’r dyfrlestri.*

*Cyfrannu mae i bawb yn rhad,*
*Mae’n hynod o drugarog,*
*Mae yn diwallu’r weddw dlawd,*
*Run fath a’r gŵr cyfoethog.*
*O’th amgylch doi, ffynnonig fach*
*Mae natur hardd yn gwenu,*
*Ti wyt fel blodyn gwiw mewn gardd*
*Yn denu bardd i’th ganu.*

Un o’r ychydig feirdd lleol a gasglodd ei waith ynghyd i’w gyhoeddi oedd D. Byron Lewis. Cyhoeddwyd ei gyfrol *Blodau Cariad* yn 1907 a’i werthu am swllt. Ceir englyn gan D. C. Jenkins, Rhydcymerau fel cyflwyniad:

*Llanddewi Brefi brofodd – o ddoniau*
*Bardd annwyl a fagodd;*
*O law’r bardd hwn y tarddodd*
*Blodau cariad o râd rodd.*

Barddoniaeth prentis yw peth ohono a pheth arall yn fawreddog, glogyrnaidd yn null Beirdd Newydd diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Disgrifia uffern fel “ffos llygredigaeth, nythle front ellyllon lle brwyda dialgwn ac ysgorpionau duon”.

Mae yn y gyfrol gryn dipyn o ganu serch fel Islwyn y bardd-bregethwr, Mae Byron Lewis yn teimlo hiraeth di-ddiwedd am ei gariad a fu farw’n ieuanc ac a gladdwyd ym mro Cellan

*Pe buasai dagrau’n gallu gwneud*
*Dy godi’n fyw o’th ddwfn fedd,*
*Tywallta’n calon ddagrau gwaed*
*Er mwyn cael cipdrem ar dy wedd.*

Ond y gerdd sy’n gafael ynof yw ei folawd i Llanddewi – *Dawel Yw.*

**Cysylltwch â’r**

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
‘ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL’

**dbenrees@gmail.com**

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

**Noson Agoriadol**
**Medi 18, 2018**
**Alejandro Jones o Batagonia**
Sgwrs a Chân.
Bwffe i bawb.
Cychwyn 6.30



**Medi 25**
Dr. Elwyn Hughes, Bethel
“Bro Caradog Pritchard trwy luniau” am 7.30 yn y Ganolfan

*CRWYDRO CYMRU*

# BANNAU BRYCHEINIOG



Taith ramantus bob amser o'r flwyddyn yw'r daith dros Fannau Brycheiniog, dyweder o Aberhonddu i Ferthyr Tydfil, neu ar dro arall gan droi ynghanol y Bannau am Hirwaun, Aberdar a Chastell Nedd. Gellid bob amser ymloetran yn y pentrefi hanner diwydiannol sydd ar odre'r Bannau, fel Pontneddfechan, Penderyn a Cefn-Coed-y-Cymer.

Y mae'r Bannau yn dir agored bob ochr i'r ffordd a rhaid cymeryd gofal pan ddaw'r defaid yn ddi-rybudd weithiau i groesi'r ffordd. Lleddir ychydig ohonynt bob blwyddyn.


Denir pobl Cymoedd Cynon a Thaf i'r Bannau yn gyson ar benwythnosau misoedd yr haf ond yn y gaeaf gall taith drostynt fod yn hunllefus. Disgwylir i filwyr ar dro, yn ystod cyfnod paratoi, i gerdded dros rannau o'r Bannau hefyd.

Daw'r Brycheiniog yn yr enw o'r sant a'r brenin a drigai yn y bumed ganrif o oed Crist. Gwyddel mae'n debyg, a gwyddom erbyn hyn fod sefydliadau Gwyddelig ym mlaen Cwm-Nedd, ar odre'r Bannau ger Ystradfellte ein dyddiau ni: pentref tlws arall sydd ag awyrgylch a hud y cynfyd o'i amgylch, ac yn bendifaddau yn un o bentrefi y Bannau.



# CORNEL Y TRYSORYDD

## AWST-MEDI 2018



| | |
|---|---|
| Rhodd Eglwys Bethania, Waterloo | £100.00 |
| Mrs Mair Jones, Childwall | £20.00 |
| Miss Hilda Lloyd, Rainhill | £25.00 |
| Mrs Betty Morris, Upton | £30.00 |
| Mr a Mrs Robyn Gwyndaf, Caerdydd | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£195.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# A GLYWAIST TI?

**Cyfieithiad o'r geiriau Saesneg, "Have you read the Story of the Cross?"**

A glywaist ti'r hanes am y Groes,
A'r gwaed ar Galfari,
Lle talodd Crist y ddyled fawr
I achub dy enaid di?
Ei fywyd a roddodd Efe, fy ffrind,
Bu farw Ef drosot ti;
Y cariad a wridai gochni'r gwaed
Un dydd ar fryn Calfarî.

A glywaist ti am y goron ddrain
A roddwyd ar Ei ben?
"Ni wyddant hwy pa beth a wnânt",
Oedd geiriau Tywysog Nen.
Ei fywyd a roddodd Efe fy ffrind,
Bu farw Ef drosot ti;
Y cariad a wridai gochni'r gwaed,
Un dydd ar fryn Calfarî.

A glywaist ti am y gri a'r loes
Ar fynydd Calfari?
A ddiolchaist ti iddo, 'ranwylaf Oen,
Am farw drosot ti?
Ei fywyd a roddodd Efe, fy ffrind,
Bu farw Ef drosot ti;
Y cariad a wridai gochni'r gwaed
Un dydd ar fryn Calfarî.

*John Huw Hughes*

*Myfyrdod*

# Y GWLITH

Pan oeddwn yn byw yn Nhŷ Capel, Waenfawr, Caernarfon, ein gweinidog oedd y Parchedig Harri Williams, M.A. Roedd gennym fel teulu barch mawr iddo ef ac i Olwen, ei wraig. Dyn da, annwyl, ysgolhaig o'r radd flaenaf, gweinidog gofalus o'i braidd, pregethwr yn treiddio i'r wrthrych ei destun ac yn gofiadwy. Cofiaf fynd i'w weld un tro pan nad oedd yn dda. Croeso tu hwnt fel arfer gan Olwen ac wedyn yn y ffrynt y tŷ eisteddai ar y lawnt. Ar ôl sôn am hwn a llall fe ddywedodd ei bod wedi gwlitho'n drwm yn ystod y nos. Dywedodd pan oedd yn yr ysbyty flynyddoedd yn gynt ei fod yn ffrindiau gyda'r garddwr ac roedd hwnnw wedi dweud wrtho bod dau angenrhaid ar gyfer gwlith – sef yr awyr yn ddi-gwmwl a llonyddwch perffaith yn yr awyr. Mae'r bardd wedi dweud hefyd *"droplets of water that are moist, refreshing and pure"* ac roedd yn hoffi hynny. Mae Hosea, wyddost, yn dweud ar ran Duw i'r genedl "Byddaf fel gwlith i Israel" neu fel dywedodd rhywun "cusan pardwn Duw" Tybed? Ac ar ôl ryw hanner awr felys neu fwy o sgwrs gadewais a rhywbeth i feddwl drosto a chnoi cil gan yr athronydd a'r diwinydd cyfeillgar.,

Byddaf yn hoffi'r Hen Destament am y rheswm mai hanes DYN ydyw o'r cychwyn ac o'i ddarllen teimlaf fy mod yn DYSGU byw. Hosea yw efengylydd mawr yr Hen Destament. Dyma, meddyliaf, yw proffwyd gras a chariad Duw. Yn wir doedd neb yn treiddio'n ddyfnach i bechod, edifeiriwch a maddeuant nag ef. Prif nodwedd natur Duw i'r proffwyd hwn oedd ei gariad. Ystyr y cariad hwn iddo fe oedd awydd di-ildio i hyrwyddo daioni eraill, heb ystyried eu teilyngdod hwy. Dysgodd hyn o'i brofiad ei hun gartref megis yn caru ei briod bechadurus ei hun. Pan ddywedodd Harri Williams "tybed" i'r dywediad "cusan pardwn Duw". Tybed a oedd e'n meddwl bod eisiau cusan bywyd i'r Eglwys? Oedd e'n gweld mor farwaidd ac marwnadol yw ein crefydd? Mae Shakespeare yn sôn rhywle am "the honey-heaven dew". Gofynnaf yn ostyngedig os oes yna luoedd o deuluoedd gwir grefyddol wedi colli blas at grefydd ein heglwysi? Ai arnynt hwy "yn seti'r llawr" mae y bai i gyd? Clywaf lawer un yn ein heglwysi yn cymell o hyd i'r Eglwys fod yn fwy uchelgeisiol ac i ymddiddori ym mhopeth sydd a wnelo a bywydau dynion. Da efallai hynny o beth. Cofiwch hyn mae coed tal ydyw Cedrwydd Libanus.

Peryglus yw uchder heb ddyfnder.!! Mae'n well o lawer gennyf Goeden y Groes â'i chrefydd yn llydan a'i breichiau ar led yn amgylchynu holl ddynolryw. Sonnir gan Hosea am arogl Libanus. Rhaid i bob ran o'r Eglwys fod yn "arogl fel Libanus", ac yn mwy peraroglus fel y bydd naws a blas mwy hyfryd ar holl fywyd y byd sydd o'n hamgylch. Tybed mai hyn oedd gan yr annwyl Harri Williams yn ei fyfyrdod?

**ELWYN PARRY**

## *CYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL 2018*

### MEDI 5ed 2018

### CLWB GOLFF WOOLTON, LERPWL

***18 twll a chinio £35. Cinio yn unig £20. Raffl ac ocsiwn wedi'r cinio.***



***(Lluniau o ginio 2017)***







***Elw i Uned Toriadau Gwddf y Femur, Ysbyty Brenhinol Lerpwl a Chronfa Dathliadau Yr Angor 2019.***

***Am fwy o fanylion cysylltwch â John Williams – doctorjohnwilliams@btinternet.com***

# EISTEDDFOD Y G'LOMEN WEN

Fel mae'r rhifyn hwn yn eich cyrraedd fel darllenwyr mae rhai ohonoch eisoes yn meddwl am yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd honno eleni yn cael ei chynnal ar ei newydd wedd yn y Bae heb Y Maes arferol y gallwn gerdded o'i gwmpas a cyfarfod hen ffrindiau.

Ond faint o ddarllenwyr *Yr Angor* sydd bellach yn gwybod rhywbeth am yr Eisteddfod uchod sef Eisteddfod Y G'lomen Wen, eisteddfod boblogaidd iawn a gymerodd le ym Mhenbedw yn y blynyddoedd hynny wedi'r Rhyfel Byd cyntaf ddod i ben. Sylwch ar y sillafiad y gair colomen fel yr ydym yn ei ynganu ac mae y G'lomen Wen yn arwyddocaol iawn mewn cysylltiad â'r rhyfel am fod y golomen yn symbol o heddwch ac yn sicr fe fyddai pawb yn falch o heddwch ar ôl y colledion mawr a gymerodd le. Mae yn sicr hefyd bod llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Penbedw 1917, Eisteddfod y Gadair Ddu, wedi bod yn symbyliad mawr i'w sefydlu.




Cefais fenthyg y darian hardd a welwch, tarian i enillwyr corau plant, gan Mrs Mair Rees Jones Penbedw, ac mae wedi bod yn ei meddiant ers pan ddaeth y steddfod i ben yng nghanol 50degau y ganrif ddiwethaf. Gwelwch, os ydyw yn ddarllenadwy, mai'r enillwyr cyntaf i ymddangos ar y darian yn 1950 oedd Mersey Park School a'r olaf yn 1956 oedd Christ Church CE primary School. Fe fuodd Mair yn athrawes yn ysgol Christ Church o 1967 hyd 1982 .

Ar ôl llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Penbedw 1917, eisteddfod y Gadair Ddu, yr oedd brwdfrydedd mawr ymhlith Cymru Penbedw i gael eisteddfod eu hunain. Galwyd pwyllgor i drafod y mater a phenderfynwyd gyrru ymlaen i gychwyn eisteddfod a'i galw yn Eisteddfod y G'lomen Wen. Penodwyd gŵr o'r enw Mr Rees Jones, gŵr busnes, blaenor ac ysgrifennydd Capel Parkfield Road i'r swydd o ysgrifennydd, a pharhaodd yn y swydd honno o 1919 hyd ei farwolaeth yn 1956. Ar y 3ydd Ionawr 1930 rhoddwyd tysteb i Rees Jones i gydnabod ei wasanaeth diflino fel ysgrifennydd yr Eisteddfod a chyflwynwyd siec ac anrheg o waled hardd iddo i gofio'r achlysur. Mae'r waled yn dal ym meddiant Mair hyd heddiw.

Cynhaliwyd yr eisteddfod mewn ystafell yn Byrne Avenue Baths yn Rock Ferry ar y trydydd Dydd Gwener a Sadwrn ym mis Mawrth. Eisteddfod dau ddiwrnod i blant ac oedolion a oedd yn tynnu cystadleuwyr o bob rhan o Gymru gydag arweinyddion amlwg fel Llwyd o'r Bryn a Pat O'Brian. Mae Trefor Roberts, sydd yn dal i fyw ym Mhenbedw, yn cofio yn dda fel yr oedd yn cystadlu fel plentyn. Parhaodd yr Eisteddfod yn ddidor trwy gydol yr Ail Ryfel Byd hyd iddi ddirwyn i ben oddeutu 1957. Daeth Rees Jones yn ddiweddarach i fod yn dad yng nghyfraith i Mrs Mair Rees Jones trwy iddi ddod yn briod a Walter ei fab. Gwyddom am gyfraniad Mair a'i diweddar wr Walter i'r Gymdeithas a'r capel Cymraeg yn Mhenbedw hyd heddiw yn y Gymdeithas Gymraeg a Chapel Seion.

Mae'r darian ar ei ffordd bellach i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i ymuno gyda toreth o greiriau eraill o hanes a gweithgareddau Cymry Penbedw yn y ganrif ddiwethaf a gyfranwyd gan Mair eisoes.

Dyma deulu sydd wedi cyfrannu yn helaeth a gweithgar i fywyd Cymraeg Glannau Mersi am ganrif gyfan, ac yn dal i wneud hynny trwy law Mair Rees Jones. Diolch iddynt.

***Roderick Owen***


Dros y 18 mis diwethaf mae ***Corau Cymru***
wedi cyhoeddi 4 CD yn y gyfres

**HOFF EMYNAU**

yr un diweddaraf gan
Gôr CF1, Caerdydd.

Mae pob CD yn cynnwys i fyny at 15 o emynau poblogaidd wedi eu recordio gan gorau adnabyddus.

Ar gael yn awr am £12 ynghyd â llyfryn sy'n cynnwys y geiriau a'r tonau oddi wrth ***www.coraucymru.com***


### *Cymdeithas Lenyddol Bethel, Heathfield Road/Auckland Road, Lerpwl*

*Gwahoddir chwi i fwynhau cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer Medi 2018 - Ebrill 2019.*
*Gofynnir i chwi roddi yn eich dyddiadur y cyfarfodydd hyn yng Nghanolfan y Cymry, Penny Lane*

**1) Nos Lun, Hydref 8, 2018 am 7.30**
pryd y disgwylir Dr. Derec Llwyd Morgan
(cyn brifathro Coleg y Brifysgol Aberystwyth)
o Ynys Môn i ddarlithio ar
***Y Bren hin bren: Bywyd a Gwaith***
***Syr Thomas Parry 1904-1985.***

**2) Nos Lun, Tachwedd 26 am 7.30.**
Noson o dan ofal Dysgwyr yr Iaith Gymraeg.

Yna yn 2019

**3) Cinio Gŵyl Ddewi ar Nos Wener, 1 Mawrth 2019**
yng Nghlwb Golff Woolton (noson ar y cyd gyda'r Gymdeithas Gymraeg) am 7.30 o'r gloch.
Gŵr gwadd: y bardd Aled Lewis Evans, Wrecsam.

**4) Nos Lun, Mawrth 11, 2019 am 7.30 o'r gloch**
Darlith Dr. Bleddyn Owen Huws, Adran Gymraeg Prifysgol Aberystwyth am
***T. H. Parry-Williams yng Nghysgod y Rhyfel Mawr.***

*Gwleddoedd yn ein haros.*

*Bu'r Gymdeithas yn ffodus o gael ysgolheigion y Gymraeg a'n beirdd cyfoes i ddod atom i Lerpwl*


# Dathlu Madagascar yn Aberaeron a Nercwys



**Mrs Elinor Wyn Reynolds yn lansio'r llyfr 'Hanes Madagascar' a gyfieithwyd i'r iaith Falagaseg gan Mr Miara Rabearisoa.**



**Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Parch Jill Hailey Morris yn cyfarch llywydd yr FJKM y Parch Ammi Andriamahazosoa, Parch Geraint Tudur Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn y cefndir.**




**Clawr y llyfr 'Hanes Madagascar' y Cymraeg wedi ei foderneiddio gan Mrs Elinor Wyn Reynolds**



**Mrs Dilys Ebbs o gapel Cymraeg Willow Tree Road a'r Parch Zoë Rasendrahasina wedi ein hymwelydd i'r cynulliad yn yr Wyddgrug.**

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*